

Targed	Sut rydych chi wedi gweithio ar hwn?	Esiampl
I wirio'r llawlyfr ar gyfer ambell fan gamgymeriad cyfeirnod.	Edrychais ar y llawlyfr wrth gyfeirnod ac wrth wirio fy ngwaith ar ôl orffen.	Gwelir y rhestr cyfeirnod.
I ychwanegu gwybodaeth at atodion yn ôl yr angen.	Ychwanegais wybodaeth berthnasol i gefnogi a chryfhau'r aseiniad.	Gwelir yr atodiad- enghraifft o gamau cynnydd a llythyr at rieni Noa.
Wrth gynnal trafodaeth feirniadol, i ystyried cynnwys elfennau o ddadleuon gwleidyddol (gan fod hwn yn effeithio ar bolisi addysg) pan maent yn berthnasol i'r materion dan sylw.	Edrychais ar bolisiau addysg gwahanol weledydd.	Cysylltais weledigaeth Llywodraeth Cymru i Lywodraeth Selan Newydd. Gwelir tudalen.

Astudiaethau Craidd: Y dysgwr: pwy ydw i'n ei addysgu?

Gan gefnogi eich trafodaeth gyda theori, ymarfer a thystiolaeth o'r lenyddiaeth, adfyfyriwch yn feirniadol ar sut y byddech yn cefnogi dysgwr unigol sydd a'i g/chynnydd yn cael ei effeithio gan rwystrau penodol i'w dd/dysgu yn ystod un cyfnod pendant o drosglwyddo (llorweddol neu fertigol).

Bwriad yr aseiniad yw trafod am sut i gefnogi dysgu a datblygiad disgybl sy'n cael ei effeithio gan rwystrau penodol yn ystod un cyfnod o drosglwyddo. Y disgybl canolbwyntir ar yw Noa (ffug enw), sy'n fachgen wyth mlwydd oed gydag anawsterau iaith, lleferydd a chyfathrebu (AILIch). Rhoddir enw ffug oherwydd trafoda BERA (2018, t.7) am bwysigrwydd cyfrinachedd ac anhysbysrwydd wrth drafod plentyn. Gwelir o broffil Noa (gwelir rhan2) bod ganddo anawsterau ynganu geiriau a siarad yn glir, yn ogystal â cychwyn sgysiau a chymdeithasu o ganlyniad i'w diffyg hyder a nam siarad. At hyn, sonnir bod angen datblygiad pellach gyda'i sgiliau echddygol man (rheoli pensil) a chanolbwyntio. Pwysleisia Ryder (2013) y pwysigrwydd o ffocysu ar gryfderau a rhwystrau plentyn, yn ogystal â'u diddordebau i gymell datblygiad. Canolbwyntir ar gyfnod o drosglwyddiad penodol sef newid o ddysgu gartref yn ystod pandemig coronafeirws i ddychwelyd i'r ystafell dosbarth.

Cydnabuwyd ers amser bod trosglwyddo yn cael effaith ar ddatblygiad academiaidd, cymdeithasol ac emosiynol dysgwyr, a all effeithio bywyd plentyn yn yr hir dymor (Packer et al, 2021). Ffaith hysbys yw bod dwy gwahanol fathau o drosglwyddiad; fertigol sef newid o un cyflwr i gyflwr arall fel symud o'r meithrin i ysgol llawn amser a llorweddol sef newidiadau bod dydd fel ymwelwyr ysgol annisgwyl (Vogler, 2008). Wrth ystyried ei ddiddordebau ac agweddau i wella o'i broffil dewisir sesiynau magwraeth o fewn grwpiau bach fel strategaeth i ddatblygu sgiliau ieithyddol a chymdeithasu Noa. Cynllunnir grwpiau magwraeth i ddarparu gweithgareddau a phrofiadau penodol i ddisgyblion sydd ag anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol (ACEY) (Bennathan a Boxall, 2012). Mae'n eglur bod diddordeb gan Noa mewn gweithgareddau chwarae neu synhwyraidd megis Lego, teganau, toes a phaent. Yn gyffredinol, o fewn grŵp magwraeth mae hyd at ddeuddeg o blant a dau aelod o staff, athro a chynorthwyydd. Ei nod yw darparu amgylchedd diogel, croesawgar a gofalgwr ar y safle ysgol ar gyfer dysgu a phrofiadau cadarnhaol er mwyn gwneud cynnydd a chyrraedd eu potensial (Bennathan a Boxall, 2012). Edrychir ar ei sgiliau ieithyddol a chymdeithasol yn benodol, ond bydd gweithgareddau yma'n datblygu ei sgiliau echddygol man a chanolbwyntio hefyd. Eglura Llywodraeth Cymru (2020b) bod cynnydd ar hyd continwum dysgu yn ganolog i Gwricwlwm i Gymru. Yn yr un modd, dywed erthygl 29 o hawliau plant Cymru bod gan blant yr hawl i gyrraedd eu potensial llawn a bod y gorau gallwn fod (CPC, 2011).

Yn gyntaf bwriedir trafod am ddatblygiad iaith a chysylltu ag anghenion Noa. Mynna O'Grady (2005) erbyn wyth mlwydd oed dylai Noa defnyddio brawddegau cymhleth, cynnal sgwrs, esbonio'i ddewisiadau a chefnogi'i gosodiadau. Ar y llaw arall, noda Gross (2013) bod dysgu iaith yn cymryd amser, ac mae plant yn amrywio o ran eu cyflymder cyrraedd cerrig milltir mewn datblygiad iaith a lleferydd. Cysylltir hyn i syniad Donaldson (2015) o ddilyniant mewn dysgu fel taith o lonydd a chyfnodau o gynnydd, gan fod datblygiad pob plentyn yn unigryw. Ymhellach, dyweda Cumbria Council (2020) bod plant ag AILCh yn gweld yn anodd ymuno a thrafodaeth grŵp, anawsterau ganolbwyntio, diffyg cyswllt llygaid a diffyg dealltwriaeth o iaith gymhleth, sy'n debyg i'r hyn a nodir ym mhroffil Noa. Yn nodweddiadol, gall plant sy'n datblygu cael trafferth gyda rhai synau, geiriau a brawddegau wrth iddynt ddysgu (CDC, 2021). Yn ôl y CDC (2021) ceir plant eu geni yn barod i ddysgu iaith, ond mae angen iddyn nhw ddysgu'r iaith mae'r teulu a'u hamgylchedd yn eu defnyddio. Cytuna Vygotsky (1962, dyfynnwyd gan McLeod, 2020) gyda'r datganiad yma oherwydd creda bod rhyngweithio rhwng plant yn hanfodol i ddatblygiad iaith, yn enwedig sgwrsio a chwarae. Yn aml, gwelir iaith fel geiriau a modd o gyfathrebu, ond y blociau adeiladu sy'n sail i iaith a lleferydd yw'r gallu i wrando, chwarae a rhyngweithio (Zascerinska, 2010). Wrth ei arsylwi ar y buarth mae Noa'n mwynhau chwarae'n annibynnol yn hytrach na chyd-chwarae. Gellid dadlau cysylltir i'r

cam 'chwarae unig' yn gamau chwarae cymdeithasol Mildred Parten a dyma le mae plant yn hoff o chwarae heb unrhyw gyfranogiad cymdeithasol arall (Rymanowicz, 2015). Felly, mae'n anodd i Noa datblygu ei sgiliau iaith o ganlyniad i'w diffyg cyfathrebu a rhyngweithio. Hefyd, mae'n bwysig cofio bod atal dweud Noa yn achosi iddo siarad yn betrusgar, ailadrodd ac ymestyn rhai geiriau sy'n arwain at bryder ac embaras (Ryder, 2013). O ganlyniad i hyn mae'n bwysig i wrando'n ofalus a darparu cyfleoedd cyfathrebu amrywiol megis y celfyddydau (Buttriss a Callander, 2008). Tra bod dadl Vygotsky efallai'n gywir, rhaid nodi cred Chomsky (1965, dyfynnwyd gan Siencyn, 2010) bod iaith yn rhy gymhleth i ddysgu achos mae'n rhan o wneuthuriad y rhywogaeth ddynol a rhan o'n hetifeddiaeth fiolegol a genetig. Anghytuna Bruner (1982, dyfynnwyd gan Siencyn, 2010) gan bwysleisio pwysigrwydd amgylchedd ieithyddol cyfoethog. Yn dilyn hyn, mae'n bwysig ystyried y tair ffactor (teulu a chyfoedion, genetig ac amgylchedd) fel dylanwadau pwysig ar iaith. Ymhellach, mae'r fam yn ddi-gymraeg ac nad yw'r dad yn siarad llawer o Gymraeg gartref, felly mae'r fam yn poeni bod y dwyieithrwydd yn achosi anawsterau pellach i Noa. Ond, mynna CDC (2021) nid dwyieithrwydd yn achosi anawsterau, y gallu i ddeall a siarad dwy iaith yn dibynnu ar ymarfer Noa a'i ddefnydd o'r ieithoedd (CDC, 2021). Hefyd, yn ôl erthygl gan Roberts (2021) mae 76.5% o rieni'r ardal leol gyda phlant yn ysgol Gymraeg yn siarad Saesneg yn unig.

Yn ail, trafodir trosglwyddiad ac effaith y cyfnod clo ar addysg Noa. Atgyfnertha Symonds (2015) gall newidiadau mewn amgylchedd, adnoddau, disgwyliadau, dulliau addysgeg neu ystafell, y potensial i gael effaith ar ymateb plant. Y fath o drosglwyddiad edrychir ar yw trosglwyddiad fertigol, newid o ddysgu gartref yn ystod y cyfnod clo i ddychwelyd i'r ysgol. Golyga dychwelyd i'r ysgol addasu i reolau a gwerthoedd cymdeithasol yn ogystal â dod i delerau â newidiadau mewn rolau a pherthnasoedd (Fabian & Dunlop, 2007). Oblegid i ysgolion cau yn ystod y pandemig gall ymlyniad at addysg ostwng, i rai plant gall bod i ffrwd o'r ysgol achosi lleihad yn eu dyfalbarhad ac achosi gofid dychwelyd (Rogers, 2020). Ychwanega'r PHE (2014), gall beidio ymdopi i drosglwyddo nôl i'r ysgol fod yn gyfnod tyngedfennol yn eu datblygiad, oherwydd gall effeithio ar lefel eu hymgysylltiad gyda'r dysgu ac felly'n effeithio ar eu cyrhaeddiad. Mynna Rogers (2020) gall diddordeb mewn dychwelyd i'r ysgol fod llawer yn is i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn benodol. Yn yr un modd, dadleua Symonds (2015) bod trosglwyddiadau'n fwy heriol i blant ag ADY yn cymharu i blant prif ffrwd, felly dylai oedolion bod yn ymwybodol o'r risgiau a darparu cefnogaeth ychwanegol i leihau'r effeithiau negyddol. Honna Vygotsky bod arweiniad oedolyn yn angenrheidiol i ysgogi plant i gyfathrebu (dyfynnwyd gan Siencyn, 2008). Fodd bynnag, dadl ddadleuol Symonds (2015) yw dim ond plant ag ADY yn cael eu hadnabod a'u cefnogi trwy adeg o drosglwyddo, sy'n gadael grwpiau eraill o blant bregus heb gefnogaeth.

Ond yn achos Noa, mae dychwelyd i'r ysgol yn heriol o ganlyniad i'w AILICH ac addasu nôl i arferion y dosbarth yn hytrach na chysur ei gartref. Wrth ddysgu cartref teimla Noa'n ddiogel achos mae mam yn deall ei ystumiau a'i ffordd o gyfathrebu, ond wrth ddychwelyd i'r ysgol bydd disgwyl iddo ddefnyddio iaith a chymdeithasu. Sonia theori ymlyniad Ainsworth bod plant â rhieni sy'n ymateb i'w anghenion yn fwy tebygol o gael problemau'n gwahanu (1978, dyfynnwyd yn McLeod, 2018). Yn yr un modd, o ganlyniad i'r straen a phryder bydd Noa yn profi mae'r risg iddo gwrthod siarad a chyfathrebu yn gyfan gwbl, dyma mwtadiaeth detholus. Yn fras, mae mwtadiaeth detholus yn gyflwr gorbryder o ddiffyg siarad mewn rhai sefyllfaoedd sy'n cyfyngu ar weithrediad academiaidd a chymdeithasol (NHS, 2019). Dros amser, gall plant â mwtadiaeth ddetholus dynnu'n ôl ac ofni dulliau cyfathrebu eraill, megis ysgrifennu, ystumiau neu gyswllt llygaid (Sharp, Sherman a Gross, 2007). Dyma pam mae'n bwysig adnabod anawsterau'n gynnar a chynllunio'n effeithiol er mwyn osgoi rhwystrau pellach megis cyrhaeddiad addysgol is, problemau iechyd meddwl ac anawsterau ymddygiadol (Bercow, 2008). Ar y cyfan, dyma pam bydd sesiynau magwraeth o fewn grwpiau bach yn ffordd ddefnyddiol o ddod i'r arfer o gyfathrebu ar lafar ac ymarfer ei sgiliau iaith.

Nesaf, bwriedir trafod am bwysigrwydd cydweithio rhwng rhanddeiliad. Darparir cymorth ychwanegol i ddisgyblion ag ADY sy'n profi trosglwyddiadau yn Ysgol Gynradd George-Street a chwaraeodd y rhieni rôl allweddol yn y broses i leddfu unrhyw bryderon a meithrin perthnasoedd cadarnhaol gyda staff (Estyn, 2019). O ganlyniad i'r cymorth hwn parhara'r disgyblion i wneud cynnydd, bod yn mwy hyderus ac ymdopi i'r newid, sy'n arwain at ymgynffwrddo'n gyflymach (Estyn, 2019). Er gall sicrhau ymglymiad rhieni weithiau bod yn heriol, pwysleisia Llywodraeth Cymru (2020a) y pwysigrwydd o fagu perthynas cadarnhaol gyda rhieni/gofalwyr, oherwydd gall yr ymgysylltiadau cynorthwyo cynnydd a datblygiad Noa. Atgyfnertha hyn gan Ball a Blachman (1991, dyfynnwyd yn Durisic a Bunijevac, 2017) sy'n nodi effeithia rhieni ar lwyddiant plant gan fod rhieni cefnogol yn magu plant sy'n llwyddo yn cymharu â phlant sydd ddim â rhieni ymrwymedig. Yn deillio o hyn, ysgrifennaf lythyr i rieni Noa (gwelir atodiad 1) yn cyflwyno'r strategaeth penderfynwyd ar i gefnogi'r trosglwyddiad a datblygu ei sgiliau iaith a lleferydd. At hyn, cyniga Estyn (2016b) y syniad o gynnal sesiynau adborth, galwadau ffôn cyson a llyfrau cyswllt i gynorthwyo cyswllt agos er mwyn monitro cynnydd Noa. Er mwyn tanlinellu pwysigrwydd hyn, adrodda rhieni o Ysgol Plas-Brondyffryn (sy'n gweithredu'r math yma o gyswllt gartref) eu bod yn teimlo'n fwy abl a hyderus i gefnogi eu plant wrth wynebu heriau amrywiol a gwela cynnydd yn ddatblygiad eu plant (Estyn, 2016b). Wedi dweud hyn, yn ôl Symonds (2015) athrawon yw'r bobl fwyaf dylanwadol a phwysig i ddarparu cymorth i blentyn sy'n profi trosglwyddiad oherwydd mae ganddyn nhw ddyletswydd ac adnoddau i siapia profiadau'r plentyn. Gellid mynd mor bell â dweud bod

athrawon yn gweithredu fel modelau rôl ar gyfer iaith, gan ddefnyddio ystumiau, tôn llais a mynegiant i gael effaith (Estyn, 2016c). Serch hyn, dylid ystyried pwysigrwydd bob aelod o'r cylch cymorth. Mae trosglwyddo llwyddiannus yn dibynnu ar ymrwymiad, cydweithio a chymorth o staff yr ysgol, asiantaethau allanol a'r rhieni, yn ogystal â datblygu cysylltiadau cadarnhaol i hybu cynnydd a datblygiad Noa (Cyngor Oxfordshire, 2017). Cefnoga'r datganiad yma gan arolwg yn yr Alban gan Dunlop (2002) lle sylweddolir bod perthynas cadarn a chydweithio effeithiol rhwng rhwydwaith ysgol (rhieni, staff ysgol ac allanol) yn arwain at drosglwyddiad llwyddiannus.

Nawr ymhelaethir ar sesiynau magwraeth, gan nodi'r cefndir, pwrpas a pham mae'n addas ar gyfer Noa. Hefyd, cyn penderfynu ar y strategaeth yma i gefnogi trosglwyddiad o'r cartref i'r ysgol mae rhaid pwysu a mesur y cryfderau a chyfyngiadau yn feirniadol. Sesiwn magwraeth yw grŵp bach o fewn amgylchedd strwythuredig, diogel a rhagweladwy sy'n rhoi cyfleoedd i blant datblygu eu sgiliau iaith, lleferydd a chyfathrebu (Coleman, 2019). Noda Llywodraeth Cymru (2010), bod sesiynau magwraeth yn cefnogi'r trosglwyddiad o'r cartref i'r ysgol. Ymgwymerir ag ystod o weithgareddau (gwelir rhan 2) strwythuredig anelir at helpu Noa datblygu ymddiriedaeth, sgiliau cyfathrebu a galluogi twf yn ei hyder a'i hunan-barch (Llywodraeth Cymru, 2010). Ymhellach, dewisir y math yma o ymyrraeth oherwydd yn y sesiynau defnyddir gweithgareddau i annog siarad, mynegi meddyliau a chyfleoedd i sgwrsio trwy chwarae (Doyle, 2013). Pwynt i'w ystyried wrth drafod yr ymyrraeth yw dadl Hopwood a Defis (2017) bod defnyddio cyfuniad o wahanol strategaethau yn y ffordd gorau i ddatblygu iaith plentyn. Felly, mae'n bwysig i amrywio'r gweithgareddau yn ystod y sesiynau magwraeth i ddatblygu sgiliau Noa, ond hefyd i gynnal ei ddiddordeb. Yn ogystal â datblygu sgiliau sy'n seiliedig ar y cwricwlwm, anoga plant i ddathlu eu cynnydd gyda chaffael sgiliau gwrando, canolbwyntio, rhannu a chymryd tro a fydd yn lleihau neu'n dileu rhwystrau i ddysgu gan alluogi llwyddiant yn y dosbarth brif ffrwd (Calmore Infant School, 2018). Un o'r agweddau pwysicaf wrth ddewis sesiynau magwraeth fel strategaeth addas yw oherwydd mae'n ymagwedd gyfoes tuag at addysg gynhwysol ac fe'u cynlluniwyd i gynyddu mynediad i ddysgu plant sydd ar yr ymylon yn aml (Coleman, 2019). Mae hyn yn cadarnhau bwriad Cwricwlwm i Gymru i fod yn gynhwysol trwy hyrwyddo bod hawl gan plant i addysg o ansawdd uchel i fod y gorau gall (Llywodraeth Cymru, 2020). Trwy gynnig amgylchedd dysgu cynhwysol lle caiff plant eu gwerthfawrogi, y cyfle i adeiladu ar eu cryfderau a'u chefnogi gyda gwahanol strategaethau, bydd cyfle iddynt lwyddo a gwneud cynnydd (Hopwood a Defis, 2017). Ar yr un pryd dylid nodi i blant ag ADY teimlo ynglwm mae angen iddynt gysylltu â theimlo perthyn i'r ysgol a staff, mae cydnabod y tensiynau a'r cymhlethdodau yma'n bwysig (Llywodraeth Cymru, 2020). Un enghraifft effeithiol i gefnogi a chynnwys plant ag ADY yw ethos Coleg St David sy'n dathlu cryfderau disgyblion ochr yn

ochr ag addysgu ansawdd uchel (Estyn, 2020). Dyma le mae disgyblion yn cael eu hannog i estyn i gyrraedd eu potensial llawn, a rhagori trwy ymyrraeth wedi'i thargedu i unigolion (Estyn, 2020). Hefyd, cyn cychwyn ag unrhyw newidiadau rhannir yr amserlen gyda Noa a thrafodir yr hyn sy'n mynd i ddigwydd yn y sesiynau i dawelu ei feddyliau. Cryfder arall yw gellir personoli'r dysgu ac addasu i anghenion a diddordebau Noa. Pwysleisia Glazzard et al. (2010) hanfodlonrwydd personoli'r dysgu i sicrhau datblygiad a chynnydd, yn enwedig wrth ystyried plant â ADY. Yn arbennig, cysyllta gweledigaeth Te Whāriki (Llywodraeth Selan Newydd, 2017) o blant yn dysgu yn ffyrdd ei hun i weledigaeth Llywodraeth Cymru (2020c) i greu cwricwlwm yn ganolog i lais y plentyn er mwyn iddynt wneud cynnydd ar hyd continwwm dysgu fel unigolion hyderus. Esiampl nodedig yw Ysgol Penmaes lle darparir y cyfle i ddisgyblion rhannu eu safbwyntiau ac felly datblygu dealltwriaeth well o'u diddordebau ac anghenion (Estyn, 2016). Ymhellach, dywed Estyn (2019b) darparir cyd-cynllunio gyda'r plentyn y cyfle i rannu'r hyn sy'n gweithio iddynt. Fel sonnir yn y proffil mae chwarae gyda Lego a phaentio o ddiddordeb i Noa oherwydd y diffyg defnydd o iaith a chymdeithasu, felly fel rhan o'r cynllun cymorth (gwelir rhan 2) cynlluniwyd sesiynau o amgylch hynny. Cryfder arall yw'r ffaith seiliwyd y sesiynau ar chwarae sy'n ddelfrydol i Noa oherwydd nad yw'n hoffi gwaith dosbarth ac felly mae'n lleihau'r siawns o'i ddiflasu a cholli diddordeb. Mynna Moyles (2014) bod chwarae'n ganolog i ddysgu a datblygiad ieithyddol a chymdeithasol plentyn. Mae'n bwysig cofio, cynyddir diddordeb ysgolion mewn sesiynau magwraeth i gefnogi plant ag ACEY oherwydd y dystiolaeth a chanlyniadau cadarnhaol (Doyle, 2013). Mewn un astudiaeth, asesodd ymchwiler berfformiad 68 o blant mewn tri sesiwn a daethon nhw o hyd i welliannau sylweddol yn natblygiad iaith ac ymgysylltiad cymdeithasol (Cooper a Tiknaz, 2007). Mae nifer o astudiaethau ymchwil eraill yn dod i gasgliadau tebyg, sy'n cryfhau'r farn bod sesiynau magwraeth yn effeithiol ar gyfer plant ag AILICH (Cooper a Tiknaz, 2007). Cryfder arall sesiynau magwraeth yw'r ffaith cynhalir o fewn grwpiau bach sy'n o fydd i Noa er mwyn iddo addasu nôl i fywyd ysgol ar ôl y clo mawr. Pwysleisia Montessori (dyfynnwyd yn Lelei, 2015) bod plant rhwng 6-12 oed yn gweithio'n effeithiol mewn grwpiau oherwydd maent yn dysgu oddi wrth ei gilydd. Atgyfnertha NEPS (2015) defnyddioldeb cynnal sesiynau o fewn grwpiau bach i fodelu iaith safonol a sgiliau canolbwyntio da. Bydd rhaid i'r plant cydweithio a chymryd rolau penodol wrth gyflawni tasgau yn enwedig tasg adeiladu sesiwn 6 (gwelir rhan 2). Gellir cysylltu i'r diben bod yn gyfrannwr mentrus sy'n chwarae rolau amrywiol mewn timau'n effeithiol (Llywodraeth Cymru, 2020a) ac i arferion y meddwl yn sbesiffig 'gweithio'n gyd-ddibynol', sef y gallu i gydweithio a dysgu o'i gilydd (Costa a Kallick, 2008). Yn gysylltiedig, mae Noa yn canolbwyntio mwy o fewn grwpiau bach achos mae llai o atyniadau a llai o bwysau cymdeithasu. Mae'n wybodus caiff disgwyliadau'r cwricwlwm presennol eu strwythuro yn ôl oedran (Llywodraeth Cymru, 2008). Wedi dweud hyn, mae'r system yn cyffredinolli cynnydd a chyrhaeddant blant er bod pob plentyn, yn

enwedig plant ag ADY, yn datblygu ar gyfraddau gwahanol (Llywodraeth Cymru, 2021). Cefnoga Healy (2011) y datganiad yma gan fynnu bod plant yn datblygu ar gyfradd eu hunain gan fod cynnydd yn unigryw i bawb. Y bwriad yw asesu cynnydd Noa trwy arsylwi'r sesiynau magwraeth, mynna Fawcett a Watson (2016) bod modd ddysgu llawer am blant trwy arsylwi o bellter mewn ffordd wylidwrs. Yn gryno, eglura Vygotsky bod arweiniad yr athrawes yn hanfodol i ysgogi Noa i ddefnyddio iaith ac i gyfathrebu (dyfynnwyd yn Siencyn, 2008). Tra bod dadl Vygotsky yn ddilys, mynega Montessori (dyfynnwyd yn Duax, 2014) bod rôl yr athrawes yw arsylwi ac ysbrydoli Noa o bellter yn hytrach na chymryd drosto. Yn deillio o hyn, yn ystod y sesiynau bydd cyfuniad o arsylwi o bellter ac arwain. Wrth asesu bydd yr athrawes yn dilyn canllawiau'r cwricwlwm a chymau cynnydd y maes dysgu a phrofiad ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu. Disgwylir i flwyddyn 4 gweithio ar gam gynnydd 3, ond mae'r disgrifiadau dysgu ar gyfer cam gynnydd 1 yn fwy addas i Noa (gwelir atodiad 2). Hefyd, edrychir ar un o'r pedwar dibenion i Noa fod yn ddysgwr uchelgeisiol a galluog sy'n gallu cyfathrebu'n effeithiol drwy'r Gymraeg (Llywodraeth Cymru, 2020a). Mae sesiynau magwraeth yn ymyrraeth tymor byr sydd fel arfer yn para rhwng 2-4 tymor yn dibynnu ar anghenion penodol y plentyn (Cyngor Glasgow, 2014). Felly, i ddechrau bydd Noa yn treialu'r sesiynau am hanner tymor i weld os yw'n cefnogi ei anghenion ac ar ddiwedd yr hanner tymor bydd gwerthusiad i benderfynu os dylai Noa parhau gyda'r sesiynau. Y bwriad yw iddo addasu i'r trosglwyddiad a datblygu'n holistaidd o ran ei ddealltwriaeth a'i ddefnydd o iaith, sgiliau gwranddo, cyfathrebu a rhyngweithio o ganlyniad i'r sesiynau magwraeth (Llywodraeth Cymru, 2020a).

Oblegid hyn mae angen ystyried y cyfyngiadau. Y brif her yw'r posibilrwydd ni fydd Noa yn ymdopi i'r sesiynau magwraeth a gweld y trosglwyddiad yn heriol. Yn yr achos yma bydd yr ysgol a rhieni yn cyfarfod i gynllunio strategaeth newydd i dreialu. Cydnabyddwyd 21 o'r ysgolion ymwelwyd gan OFSTED (2011) y pwysigrwyd o gyfathrebu rheolaidd rhwng staff. Yn un enghraifft, cyfathrebwyd yn anffurfiol ar ddiwedd y dydd ac arweiniodd hyn at ystod o staff yn gwybod am wybodaeth ynglŷn â'r sesiynau (OFSTED, 2011). Fodd bynnag, nid oedd cyfathrebu ffurfiol yn digwydd a gellid colli bylchau yng nghynnydd y disgyblion (OFSTED, 2011). Mewn un ysgol, ni chofnodwyd dysgu'r disgyblion yn y sesiynau'n glir a golygir hyn na allai'r athrawon adeiladu ar eu dysgu, na chynllunio i weithio ar y blaenoriaethau ar gyfer datblygiad y disgyblion hynny, dyma wendid sylweddol (OFSTED, 2011). Dylid nodi, fel rhan o'r Rhaglen Trawsnewid System ADY mae disgwyl i ysgolion blaenoriaethu cynnydd wrth gynllunio er mwyn iddynt gyrraedd eu potensial llawn, roedd hyn yn craidd cynllun cymorth Noa (Llywodraeth Cymru, 2020d). Felly, mae cyfathrebu gyson ymysg rhwydwaith Noa yn bwysig i sicrhau cynnydd. Cyfyngiad arall yw'r ffaith bod un sesiwn yr wythnos am hanner awr yn unig. Wrth arsylwi sylweddolwyd gan OFSTED (2011),

dim ond hanner diwrnod yr wythnos oedd y staff yn gweld y disgyblion am sesiynau magwraeth, felly roeddent yn brwydro i fod yn effeithiol yn y rôl. Wedyn rhaid ystyried wynebir bob sefydliad heriau ymysg cyllid, ond ar gyfer weithredu'r strategaeth yma mae angen adnoddau a hyfforddiant penodol gan y staff. Er mwyn datrys hyn gellid ystyried cynnal cyfarfod cyllid gyda'r uwch dîm a llywodraethwyr. Dengys yr esiampl ganlynol gan ysgol yn Wrecsam y pwysigrwydd o hyfforddiant staff. Yn aml derbyniwyd hyfforddiant gan yr uwch dîm a chyflwynwyd i'r staff ysgol, canlyniad hwn yw staff mwy addysgedig a gwybodus (Estyn, 2018). Yn ychwanegol, bydd angen therapydd iaith a lleferydd (ThILI) i arsylwi ambell i sesiwn ac asesu cynnydd Noa, ond ThILI yn brin yn enwedig rhai sy'n gallu darparu gwasanaeth Cymraeg (Siencyn, 2010). Cynhalir y sesiynau yn ystod amser gwersi. Ni ellir anwybyddu'r ffaith er bydd Noa yn datblygu ei sgiliau iaith, lleferydd a chyfathrebu wrth gael sesiynau magwraeth bydden golli agweddau arall o ddysgu. Y pryder yw bydden golli amser hanfodol yn y dosbarth, yn enwedig ar ôl dysgu gartref am flwyddyn bydd golli mwy o amser yn negyddol. Cyflwyna astudiaeth gan Huffman (2020) bod plant yn colli 1-2 mis o gynnydd yn ystod y gwyliau haf, felly dychmyga'r golled cynnydd yn ystod y clo mawr. Anghytuna Kijinski (2018) gyda dysgu trwy brofiad oherwydd mae'n tynnu amser o ddysgu yn y dosbarth lle gallent ennill mwy o wybodaeth. Ar y llaw arall, nodir pwysigrwydd dysgu trwy brofiad yn Gwricwlwm i Gymru oherwydd darparir ystod o wybodaeth a sgiliau i ddisgyblion i'w defnyddio mewn cyd-destunau bywyd go-iawn (Llywodraeth Cymru, 2020a). Pwynt arall i ystyried yw lleoliad, gan fod ystafelloedd rhydd yn brin. Er gwaethaf, cynhalir rhanfwyaf o'r sesiynau yn yr awyr agored, sy'n fuddiol oherwydd nodir ym mhroffil Noa ei fod yn hoffi'r tu allan. Cefnoga Bilton (2002) a White (2009) y strategaeth yma, eu cred yw bod iaith plant yn elwa o chwarae tu allan, fel petai'r awyr agored yn caniatâi plant i ymarfer ac arbrofi gyda'u llafaredd gydag uchder, hyder a rhyddid. Down i'r casgliad bod y cryfderau a phosibiliadau yn gorbwyso'r cyfyngiadau.

I grynhoi, er ystyrir y cyfyngiadau mae nifer o gryfderau i sesiynau magwraeth i gefnogi AILICH Noa yn ystod y trosglwyddiad o ddychwelyd i'r ysgol ar ôl cyfnod clo. Ar ôl pwysu a mesur yr ymchwil dyma strategaeth addas i gefnogi Noa i wneud cynnydd yn ei sgiliau iaith. Nodir nifer o astudiaethau a thystiolaeth llwyddiant sesiynau magwraeth i gefnogi plant ag ADY ac AILICH mewn cyfnod byr. Er mae angen ystyriaeth o'r heriau, nodir ffyrdd o oresgyn y rhwystrau yma. Serch hyn, os nad ydy'r sesiynau magwraeth yn llwyddo datblygu sgiliau iaith Noa a'i gefnogi wrth drosglwyddo nôl i'r ysgol y cam nesaf bydd trefnu cyfarfod gyda'r rhieni gan gynllunio a threialu strategaeth newydd sydd o ddiddordeb iddo a sy'n fwy addas i ganiatâi cynnydd. Ar y llaw arall, os yw'r sesiynau'n llwyddiannus y gobaith yw bydd Noa'n fwy cyfforddus dychwelyd i'r ysgol ar ôl y cyfnod clo. Y cam nesaf bydd buddsoddi mwy o arian yn hyfforddiant i staff i wella addysg a datblygiad y plant.

Wrth edrych ymlaen hoffwn arsylwi sesiwn magwraeth er mwyn cyfoethogi fy ngwaith ymhellach ac o bosib cyflawni'r hyfforddiant fy hun. Wrth gwblhau'r aseiniad dysgir llawer am bwysigrwydd personoli'r dysgu i sicrhau cynnydd ar hyd continwmm dysgu. Y cam nesaf i mi yw creu proffil unigol ar gyfer fy nosbarth ar brofiad dysgu er mwyn i mi ddod i nabod eu diddordebau, cryfderau a meysydd i ddatblygu unigol. Noda Healy (2011) bod plant yn datblygu ar gyfraddau amrywiol gan fod cynnydd pawb yn unigryw a chytunaf. Cytuna theori 'Highscope' (2021) sy'n dadlau nid oes disgwyliad i blant wneud cynnydd trwy'r amser. Fy nharged yw annog a chefnogi plant i fod y gorau gall trwy werthfawrogi a dathlu eu gwahaniaethau (Hopwood a Defis, 2017). Cysylltir i'r safon SAC sy'n nodi, dylid arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth am anghenion pob dysgwr wrth gynllunio, paratoi ac addysgu. I gloi, dywed gan Lywodraeth Selan Newydd (2017) bod gan bob plentyn potensial arbennig a chytunaf.

Cyfeirnod

Bennathan, M. a Boxall, M. (2012) *Effective Intervention in Primary Schools - Nurture Groups*. 2il Arg. Efrog Newydd: Routledge.

BERA. (2018) *Ethical Guidelines For Educational Research*. 4ydd rhifyn. Llundain.

Bercow. (2008) *Services For Children And Young People (0-19) With Speech, Language And Communication Needs*. Llundain: DCSF Publications.

Bilton, H. (2002) *Outdoor Play In The Early Years. Management And Innovation*. Llundain: David Fulton Publishers.

Buttriss, J. a Callander, A. (2008) *A-Z of Special Needs for Every Teacher*. Hereford: Optimis Education.

Calmore Infant School. (2018) *Nurture Group*. Ar gael yn: <<https://calmore-inf.hants.sch.uk/curriculum-2020/nurture-group/>> [Cyrchwyd: 21 Hydref 2021].

CDC. (2021) *Language and Speech Disorders in Children*. Centers for Disease Control and Prevention. Ar gael yn: <<https://www.cdc.gov/ncbddd/childdevelopment/language-disorders.html>> [Cyrchwyd: 18 Hydref 2021].

Coleman, M. (2019) The International Journal Of Nurture In Education. *Nurture UK*, 5.

Comisiynydd Plant Cymru. (2011) *Deall Eich Hawliau*. Ar gael yn: <https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2016/04/ccfw_rights_poster_wel.pdf> [Cyrchwyd: 14 Hydref 2021].

Cooper, P., a Tiknaz, Y. (2007) *Nurture Groups In School And At Home Connecting With Children With Social, Emotional And Behavioural Difficulties*. Llundain: Jessica Kingsley.

Costa, A. and Kallick, B. (2008) *Learning and Leading with Habits of Mind*. UDA: ASCD.

Cumbria Council. (2020) *Supporting Children's Speech, Language and Communication Development in Early Years Settings and Schools*. Cumbria.gov.uk. Ar gael yn: <<https://www.cumbria.gov.uk/elibrary/Content/Internet/537/1459/7037/17935/439869131.pdf?timestamp=4399016157>> [Cyrchwyd: 19 Hydref 2021].

Cyngor Glasgow. (2014) *Nurture Group Quality Assurance*. Education.gov.scot. Ar gael yn: <https://education.gov.scot/improvement/Documents/NGQA_August2014.pdf#:~:text=The%20Nurture%20Group%20offers%20a%20short%20or%20medium,outside%20agencies%20in%20place%20which%20is%20regularly%20reviewed.> [Cyrchwyd: 22 Hydref 2021].

Cyngor Oxfordshire. (2017) *Smooth Transitions in the Early Years: A Good Practice Guide*. Education Quality.

Donaldson, G. (2015) *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru*. Caerdydd: Hawlfraint y Goron.

Doyle, R. (2013) *The Impact Of A Nurture Group On An Infant School: A Longitudinal Case Study*. University of East Anglia School of Education and Lifelong Learning.

Duax, T. (2014) *Every Adult in the Environment: A Unifying Approach to Safety*. Montessori Guide. Ar gael yn: <<https://montessoriguide.org/every-adult-in-the-environment-a-unifying-approach-to-safety>> [Cyrchwyd: 17 Hydref 2021].

Dunlop, A. (2002) *Early Years Educational Transitions: Working Together For Children In The Early Years. Researching Current Transition Practice In Stirling Council, 2001–2002*. Glasgow: University of Strathclyde.

Duriscic, M. a Bunijevac, M. (2017) *Parental Involvement as a Important Factor for Successful Education*. Ar gael yn: <https://files.eric.ed.gov/fulltext/EJ1156936.pdf> [Cyrchwyd: 20 Hydref 2020].

Estyn. (2016) *Cyfranogiad Disgyblion: Canllaw Arfer Orau*. Hawlfraith y Goron.

Estyn. (2016b) *Sharing Expertise With Parents, Carers And Schools*. Estyn.gov.wales. Ar gael yn: <<https://www.estyn.gov.wales/effective-practice/sharing-expertise-parents-carers-and-schools>> [Cyrchwyd: 20 Hydref 2021].

Estyn. (2016c) *Taking Every Opportunity To Increase Literacy*. Estyn.gov.wales. Ar gael yn: <<https://www.estyn.gov.wales/effective-practice/taking-every-opportunity-increase-literacy>> [Cyrchwyd: 22 Hydref 2021].

Estyn. (2018) *Readiness For Additional Learning Needs Reforms*. Estyn.gov.wales. Ar gael yn: <https://www.estyn.gov.wales/system/files/2020-07/Readiness%2520for%2520ALN%2520reforms%2520-%2520en_0.pdf> [Cyrchwyd: 11 Hydref 2021].

Estyn. (2019) *Cynorthwyo Disgyblion Ag Anghenion Ychwanegol Trwy Newid*. Estyn.llyw.cymru. Ar gael yn: <https://www.estyn.llyw.cymru/arfer-effeithiol/cynorthwyo-disgyblion-ag-anghenion-ychwanegol-trwy-newid?_ga=2.154363704.188919331.1634677544-995682396.1634677544> [Cyrchwyd: 19 Hydref 2021].

Estyn. (2019b) *Defnyddio Llais Y Disgybl I Lunio Dysgu*. Estyn.llyw.cymru. Ar gael yn: <https://www.estyn.llyw.cymru/arfer-effeithiol/defnyddio-llais-y-disgybl-i-lunio-dysgu?_ga=2.244313030.210650784.1607362621-1056387457.1607362621> [Cyrchwyd: 20 Hydref 2021].

Estyn. (2020) *Cefnogi Anghenion Dysgu Unigol Disgyblion*. Estyn.llyw.cymru. Ar gael yn: <https://www.estyn.llyw.cymru/arfer-effeithiol/cefnogi-anghenion-dysgu-unigol-disgyblion?_ga=2.54148712.198950388.1634897215-166248227.1634897215> [Cyrchwyd: 22 Hydref 2021].

Fabian, H a Dunlop, A. (2007) Outcomes Of Good Practice In Transition Processes For Children Entering Primary School. *Early Childhood Development*.

Fawcett, M. a Watson, D. (2016) *Learning Through Child Observation*. Llundain: Jessica Kingsley Publishers.

Glazzard, J., Hughes, A., Netherwood, A., Neve, L a Stokoe, J. (2010) *Teaching Primary Special Educational Needs*. Exeter: Learning Matters LTD.

Gross, J. (2013) *Time To Talk*. Oxon: Taylor and Francis.

Healy, J. (2011) *Different Learners: Identifying, Preventing, and Treating Your Child's Learning Problems*. Efrog Newydd: Simon and Schuster.

Highscope. (2021) *Active Learning Curriculum*. HighScope. Ar gael yn: <<https://highscope.org/our-practice/curriculum/>> [Cyrchwyd: 22 Hydref 2021].

Hopwood, M. a Defis, N. (gol.) (2017) *Llawlyfr Darpar-Athrawon Cymru*. Caerfyrddin: Yr Athrofa. [llawlyfr mewnol].

Huffman, K. (2020) *Homeschooling During The Coronavirus Will Set Back A Generation Of Children*. Washington Post.

Kijinski, J. (2018) *Why Experiential Learning Often Isn't As Good As Classroom Learning*. Insidehighered.com. Ar gael yn: <<https://www.insidehighered.com/views/2018/01/08/why-experiential-learning-often-isnt-good-classroom-learning-opinion>> [Cyrchwyd: 20 Hydref 2021].

Lelei, F. (2015) *The Benefits of Individual, Paired and Group Lessons in a Montessori Children's House*. Wisconsin: The University of Wisconsin.

Lemetyinen, H. (2012) *Language Acquisition Theory*. Simplypsychology.org. Ar gael yn: <<https://www.simplypsychology.org/language.html>> [Cyrchwyd: 18 Hydref 2021].

Llywodraeth Cymru. (2008) *Fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol Ar Gyfer Dysgwyr 7 i 19 oed yng Nghymru*. Caerdydd: Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau.

Llywodraeth Cymru. (2010) *Nurture Groups: A Handbook For Schools*. Caerdydd: Addysg Cymru.

Llywodraeth Cymru. (2020) *Ar Drywydd Dysgu: Canllawiau*. Caerdydd: Addysg Cymru.

Llywodraeth Cymru. (2020a) *Canllawiau Cwricwlwm i Gymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru. (2020b) *Cefnogi Cynnydd Dysgwyr Canllawiau Asesu*. HWB. Ar gael yn: <<https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cefnogi-cynnydd-dysgwyr-canllawiau-asesu>> [Cyrchwyd: 16 Hydref 2021].

Llywodraeth Cymru. (2020c) *Datblygu Gweledigaeth Ar Gyfer Dylunio Cwricwlwm*. Hwb.gov.wales. Ar gael yn: <<https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cynllunio-eich-cwricwlwm/datblygu-gweledigaeth-ar-gyfer-dylunio-cwricwlwm/#progression>> [Cyrchwyd: 19 Hydref 2021].

Llywodraeth Cymru. (2020d) *Rhaglen Trawsnewid System Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru. (2021) *Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021*. Caerdydd: Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Llywodraeth Selan Newydd. (2017) *Te Whāriki - Early Childhood Curriculum*. Thorndon Wellington: Ministry of Education New Zealand.

McLeod, S. A. (2018). *Mary Ainsworth*. Simply Psychology. Ar gael yn: <https://www.simplypsychology.org/mary-ainsworth.html> [Cyrchwyd: 19 Hydref 2021]

McLeod, S. (2020) *Lev Vygotsky*. Simplypsychology.org. Ar gael yn: <https://www.simplypsychology.org/vygotsky.html#language> [Cyrchwyd: 18 Hydref 2021].

Moyles, J. (2014) *The Excellence of Play*. UK: McGraw-Hill Education.

NEPS. (2015) *Children with Language Difficulties in Primary School- Teacher Guidelines & Strategies for In-Class Support*. Good Practice Guide.

NHS. (2019) *Selective Mutism*. nhs.uk. Ar gael yn: <https://www.nhs.uk/mental-health/conditions/selective-mutism/> [Cyrchwyd: 20 Hydref 2021].

OFSTED. (2011) *Supporting Children With Challenging Behaviour Through A Nurture Group Approach*. Manceinion: OFSTED.

O'Grady, W. (2005) *How Children Learn Language*. Cambridge: Cambridge University.

Packer, R., Thomas, A., Jones, C. a Watkins, P. (2021) *Voices Of Transition: Sharing Experiences From The Primary School*. Education 3-13.

Public Heath England. (2014) *Local Action On Health Inequalities: Improving The Home To School Transition*. Llundain: UCL Institute of Health Equity.

Roberts, D, (2021) *The English-Only-Speaking Parents Determined To Put Their Children Through Welsh Medium Schools*. WalesOnline. Ar gael yn:

<<https://www.walesonline.co.uk/news/education/english-only-speaking-parents-determined-21150702>> [Cyrchwyd: 24 Hydref 2021].

Rogers, H. (2020) *The Covid-19 Pandemic: Shocks To Education And Policy Responses*. World Bank Group.

Ryder, N. (2013) *Yr ABC i Anghenion Ychwanegol*. Canolfan Peniarth: Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.

Rymanowicz, K. (2015) *The Power of Play – Part 1: Stages of play*. MSU Extension. Ar gael yn: <https://www.canr.msu.edu/news/the_power_of_play_part_1_stages_of_play> [Cyrchwyd: 14 Hydref 2021].

Sharp, W., Sherman, C. a Gross, A. (2007) Selective Mutism And Anxiety: A Review Of The Current Conceptualization Of The Disorder. *Journal of Anxiety Disorders*, 21(4).

Siencyn, S. (2008) *Y Plentyn Bach*. Caerfyrddin: Coleg y Drindod.

Siencyn, S. (2010) *Y Cyfnod Sylfaen 3-7 oed*. Caerfyrddin: Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.

Symonds, J. (2015) *Understanding School Transitions: What Happens To Children And How To Help Them*. Llundain: Routledge.

Vogler, P. (2008) *Early Childhood Transitions Research: A Review Of Concepts, Theory, And Practice* Working Paper 48. Open Research Online.

White, J. (2009) *Creating An Inspirational Outdoor Environment For Wellbeing And Learning*. Caerfyrddin: Prifysgol y Drindod Dewi Sant.

Zascerinska, J. (2010) *Language Acquisition And Language Learning: Developing The System Of External And Internal Perspectives*. Daugavpils University.

Atodiad**Atodiad 1 – llythyr i rieni Noa.**

Llythyr i rieni Noa

Annwyl rhieni Noa,

Fel trafodir yn ein cyfarfod Microsoft TEAMS cyn dychwelyd i ysgol ar ôl y pandemig, mae'r therapydd iaith a lleferydd a finnau yn creu bydd sesiynau magwraeth o fewn grwpiau bach o fydd i drosglwyddiad Noa o ddysgu gartref ar-lein i ddychwelyd i'r ystafell dosbarth. Y bwriad yw cynnal sesiynau 30 munud unwaith yr wythnos ar gyfer hanner tymor i ddechrau ac o bosib cynyddu/lleihau hyn wrth fonitro cynnydd Noa. Byddwn yn arsylwi cynnydd Noa yn rheolaidd i weld a yw'n ymdopi gyda dychwelyd i'r ysgol a'r sesiynau newydd i gryfhau ei sgiliau iaith, lleferydd a chymdeithasol. Os oes unrhyw gwestiynau neu os ydych eisiau trafodaeth bellach cysylltwch trwy e-bost neu alwad ffôn.

Diolch yn fawr iawn,

Miss Ffion Hann-Jones.

Manylion cyswllt

Rhif ffôn swyddfa Miss Hann-Jones:

Rhif ffôn swyddfa'r therapydd iaith a lleferydd:.....

E-bost Miss Hann-Jones:

E-bost therapydd iaith a lleferydd:

Atodiad 2 - leithoedd, llythrennedd a chyfathrebu - Cam cynnydd 1.

Llywodraeth Cymru, 2019. *leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu: Disgrifiadau Dysgu*. Hwb.gov.wales. Ar gael yn: <<https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/leithoedd-llythrennedd-a-chyfathrebu/disgrifiadau-dysgu/>> [Darllenwyd: 21 Hydref 2021].

✓ **Mae mynegi ein hunain drwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu.**

Cam cynnydd 1



Cymraeg/Saesneg

Rwy'n gallu cynhyrchu nifer o seiniau llafar yn gywir.

Rwy'n gallu cyfathrebu ystyr gan ddefnyddio iaith lafar estynedig a/neu ystum.

Rwy'n dechrau defnyddio iaith briodol i siarad am ddigwyddiadau yn y gorffennol a'r dyfodol.

Rwy'n dechrau cymryd fy nhro mewn sgysiau, gan ddilyn y pwnc dan sylw.

Rwy'n dechrau gofyn ac ateb cwestiynau er mwyn deall yn well.